

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hosbis Plant Tŷ Hafan, Y Sili

Dyddiad yr arolygiad: 01 ac 02 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 02 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
4. Y camau nesaf	30
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	32
Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o hosbis plant Tŷ Hafan ar 01 a 02 Hydref 2024. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 10 gwely i blant sy'n darparu gofal lliniarol a diwedd oes a gwasanaethau rheoli poen.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn amlwg bod staff ar bob lefel yn gweithio'n galed i roi profiad da i'r plant. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn yr ymatebion i arolwg AGIC a ddsbarthwyd i blant a gofalwyr cyn yr arolygiad ac o arsylwadau yn ystod yr arolygiad. Dywedodd pob ymatebydd fod gan yr hosbis ddigon o weithgareddau ar gyfer ei blentyn a bod cyfleusterau ardderchog i aelodau'r teulu a gofalwyr dreulio amser gyda'u plentyn neu i fod gerllaw.

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r plentyn ac i deuluoedd i sicrhau y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd y gwaith cynllunio gofal yn cael ei wneud trwy ddull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal, gyda phrosesau cyfathrebu da ar waith. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu gofal unigol i blant yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu.

Gwnaeth y rhieni a'r gofalwyr a gyfrannodd at yr arolygiad ganmol y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn Nhŷ Hafan. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar.

Gwelsom y staff yn trin y plant â gwir urddas, caredigrwydd a thosturi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, caredigrwydd a pharch
- Roedd gwaith cynllunio a darparu gofal cynhwysol.
- Roedd y gwasanaeth profedigaeth yn gefnogol iawn, ac roedd llawer o'r staff wedi'u hyfforddi i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth
- Gwnaed yn siŵr bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn ffordd amserol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried y grwpiau plant a gofalwyr yn yr hosbis a chaffael ac arddangos taflenni a phosteri perthnasol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau digonol ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i blant yn yr hosbis. Roedd yr amgylchedd yn lân, yn daclus, yn olau, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gwelsom fod asesiadau risg cyffredinol a phenodol ar waith ar gyfer bron pob posibilad, er mwyn lleihau neu liniaru'r risg o anaf neu niwed i blant, staff neu ymwelwyr.

Cafodd amgylchedd yr hosbis ei gynnal a'i gadw'n dda mewn perthynas â mesurau atal a rheoli heintiau. Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da iawn ar waith i bob golwg. Gwelsom fod y cyfarpar meddygol yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio, ac roedd unrhyw ddiffygion a ganfuwyd yn cael eu cofnodi'n brydlon.

Roedd trefniadau diogelu digonol ar waith gyda staff yn cyrraedd lefel 3 neu 4 yn dibynnu ar eu swydd. Roedd yr holl staff yn gallu nodi pwy oedd yr arweinwyr diogelu a sut i'w cyrraedd.

Roedd llywio'r system cofnodion cleifion yn eithaf anodd ac efallai nad oedd modd i'r staff asiantaeth neu locymau ei defnyddio'n hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu bwyd maethlon ac iach.
- Darparu gofal wedi'i bersonoli drwy gynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cysylltiadau da â thimau diogelu'r awdurdodau lleol
- Gwaith tîm aml-ddisgyblaethol ym mhob rhan o'r hosbis
- Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn dda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried cyflwyno fformat safonol ar gyfer y cofnodion cleifion. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr hosbis, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan eu rheolwyr llinell ac uwch-reolwyr eraill.

Roedd y tîm rheoli yn ymrwymedig ac yn frwdfrydig iawn dros y gwasanaethau a ddarparwyd i'r plant a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant cefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Gwnaethant ddweud wrthym fod arddangos lluniau gydag enwau aelodau'r staff o bob tîm yn y sefydliad wedi helpu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythur llywodraethu effeithiol ar waith, gyda chyfarfodydd rheolaidd ar waith i drafod digwyddiadau, canfyddiadau, pryderon a gofal plant.
- Roedd cydymffurfiaeth dda iawn â hyfforddiant gorfodol
- Roedd sesiynau goruchwyllo ac arfarnu'n cael eu cynnal pan oeddent yn ddyledus
- Roedd y staff yn teimlo bod y timau rheoli yn eu cefnogi
- Roedd y tîm rheoli yn ymrwymedig ac yn frwdfrydig iawn dros y gwasanaethau a ddarparwyd i'r plant.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn yr arolygiad, cyhoeddodd AGIC holiaduron i gaffael safbwyntiau'r rhieni a'r gofalwyr ar hosbis plant Tŷ Hafan a'u profiad o'r gwasanaethau a gynigir. Gwnaethom hefyd siarad â phlant a'u rhieni neu ofalwyr i gaffael eu safbwyntiau ar eu profiadau yn y lleoliad.

Cafwyd cyfanswm o 29 o ymatebion gan rieni a gofalwyr. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rhai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd 29 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phawb yn rhoi gradd 'da iawn' neu 'da' i'r gwasanaeth ac yn cytuno bod yr hosbis yn gyfeillgar i blant. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod gan yr hosbis ddigon o weithgareddau ar gyfer eu plentyn a bod digon o gyfleusterau ar gyfer aelodau o'r teulu a gofalwyr.]

Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

“Mae Tŷ Hafan yn lle gwych ac mae'r gofal mae'n ei roi i fi a'm hŵyr a'm teulu yn wych ac ni allwn ddymuno am unrhyw beth gwell.

“Mae Tŷ Hafan yn ddarpariaeth eithriadol. Rydym yn ddigon ffodus i allu cael mynediad. Un o'r manteision mwyaf o fod yn Tŷ Hafan yw bod eu ffordd o drin ein plentyn yn unigol iawn ac wedi'i seilio'n gyfan gwbl o gwmpas anghenion ein plentyn.”

“Mae ein mab (a'n teulu) wedi cael gofal gan Tŷ Hafan am fwy na 12 mlynedd. Mae pawb sy'n rhan o'r elusen yn hyfryd ac ond eisiau'r gorau ar gyfer ein plant. Maen nhw'n teimlo fel rhan o'r teulu

“Mae lefel y gofal wedi bod yn wych bob tro mae fy mhlentyn wedi bod yn yr hosbis. Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac maent yn ei gofio bob amser. Mae pawb yno yn anhygoel.”

“Mae'r hosbis wedi rhoi bywyd o ansawdd i'm merch ac i ni fel teulu unwaith eto. Maen nhw wedi gofalu amdanom ni i gyd fel teulu ac wedi helpu gyda phoen y ferch yn aruthrol. Wn i ddim ble bydden ni hebddyn nhw.”

“Mae Tŷ Hafan yn achubiaeth i ni, maent yn rhoi'r gofal sydd ei angen ar fy mab ac yn rhoi'r tawelwch meddwl sydd ei angen arna i i'w adael yno.”

Gwnaethom ofyn sut y gellir gwella'r hosbis; awgrymodd rhai ymatebwyr y canlynol:

“Nid oes modd iddo [wella]. Y peth gorau i'r hosbis fyddai cael mwy o gefnogaeth ariannol, wedyn gallai gyrraedd mwy o deuluoedd fel ein un ni, sydd wir angen ei help a'i gefnogaeth.”

“Bod mewn sefyllfa i gynnig seibiant, nid dim ond gwelyau argyfwng ac arosiadau i reoli symptomau.”

“Agor y pwll hydrotherapi yn gynt”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom dystiolaeth o rywffaint o ddeunydd hybu iechyd, gan gynnwys posteri trais domestig ac arwyddion fel Dim Smygu. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r cyngor ar hybu iechyd yn cael eu darparu gan y timau cymunedol sy'n cynnwys ymarferydd cymorth, gweithiwr cymorth, gweithiwr chwarae a therapydd cyflenwol yn hybiau cymunedol Tŷ Hafan. Fodd bynnag, ychydig wybodaeth oedd yn cael ei dangos ar atal fel sgrinio'r fron, sgrinio'r coluddyn ac iechyd deintyddol. Er mai i blant mae'r hosbis gan mwyaf, byddai'r wybodaeth honno o gymorth i rieni a byddai hyn yn galluogi ar gyfer eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau amrywiol.

Dylai'r cyflogwr ystyried y plentyn a'r grwpiau o ofalwyr yn yr hosbis a chaffael ac arddangos taflenni a phosteri perthnasol.

Yn ogystal, roedd set deledu yn y dderbynfa gyda gwybodaeth i rieni a staff.

Gwelsom swm sylweddol o wasanaethau'n cael eu darparu yn yr hosbis, fel hydrotherapi (ond nid oedd y pwll yn gweithio adeg yr arolygiad), therapi cerddoriaeth a chelf, crefft a chwarae. Dangoswyd y cyfleusterau ardderchog y tu allan i brif adeilad yr hosbis i blant chwarae, gyda byrddau picnic i deuluoedd a oedd yn edrych dros Fôr Hafren.

Urddas a pharch

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd bod y plant a'u teuluoedd yn cael eu trin â charedigrwydd a thosturi. Roedd yn amlwg bod y staff yn gwneud pob ymdrech i barchu preifatrwydd ac urddas y plant cyn belled ag y bo'n ymarferol. Roedd y plant yn cael eu nyrsio mewn ystafelloedd unigol a oedd yn optimeiddio preifatrwydd ac urddas cyffredinol. Roedd eu hystafelloedd gwely yn canolbwyntio

arnynt hwy o ran y dewis o ddillad gwely ac addurniadau. Darparwyd gorchudd duvet priodol yn yr ystafelloedd gwely i weddu i'r plentyn er mwyn iddo deimlo mor gartrefol â phosibl. Roedd y plentyn yn cael dewis ei hoff gymeriad neu liw ac roedd y staff yn gwneud eu gorau i gael y dillad hynny ar ei wely a phosteri ar y drws wrth rif yr ystafell.

Gwelsom er bod y staff yn ymdrin ag anghenion toiled mewn ffordd urddasol a sensitif, nid oedd ystafelloedd gwely'r plant yn rhai en-suite. Er gwaethaf hyn, roedd cyfleusterau toiled ac ymolchi aml-rywedd ar gael wrth law, a oedd yn fawr, gyda chyfarpar da, gan gynnwys teclynnau codi wedi'u gosod ar y nenfwd i helpu trosglwyddiadau lle'r oedd angen hynny. Roedd yn amlwg bod yr amgylchedd wedi'i ddylunio mewn modd ystyrlon; roedd yr ystafelloedd yn fawr, ac roedd safon y dodrefn a'r gwaith addurno yn dda iawn. Roedd arian gan roddwyr wedi galluogi i adnewyddiadau gael eu gwneud yn ddiweddar, gan gynnwys 'ffau', llety i deuluoedd wedi'i uwchraddio ar y llawr cyntaf, ac ardal cegin / ymlacio i deuluoedd gyda 'rhaniadau' newydd i roi elfen o breifatrwydd, ond heb fod yn gwbl gaeedig.

Roedd gan y staff swyddfa tîm ganolog lle y gallai'r tîm amlldisgyblaethol gau'r drws i drafod gwybodaeth am y plant. Roedd y drws hwn ar gau drwy gydol yr arolygiad. Roedd ardaloedd cymunedol, fel ardal fwyta lle y gallai'r staff, y plant, teuluoedd ac ymwelwyr eistedd gyda'i gilydd i gael eu prydu os oeddent yn dymuno.

Roedd ystafelloedd amrywiol ar gyfer chwarae a therapi gwybyddol gyda thîm chwarae a oedd yn cynnwys therapyddion wedi'u dyrannu i bob plentyn. Roedd ardaloedd cymunedol ar gael os oedd y plant yn dymuno bod gyda phobl eraill, yn ogystal â gallu defnyddio ystafelloedd chwarae neu therapi yn unigol os yn briodol. Er enghraifft, dywedwyd wrthym os oedd angen tynnu tiwb o gorn gwddf plentyn, roedd ystafell seinglos breifat ar gael gyda gwely dŵr digon mawr i riant orwedd wrth ochr ei blentyn yn ystod y driniaeth hon.

Roedd fflat hunangynhwysol ar gael ar y llawr gwaelod i blentyn ei ddefnyddio gydag aelodau o'r teulu os oedd angen amser gyda'i gilydd arnynt, neu i oedolyn ifanc dreulio amser gyda phartner, mewn amgylchedd preifat llawn cyfarpar. Roedd y fflat hwn yn ychwanegol at sawl ystafell wely gydag ystafelloedd ymolchi en-suite ar y llawr cyntaf yn darparu llety i deuluoedd, lle y gallai teuluoedd aros yn agos at eu plant.

Dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch a charedigrwydd. Dywedodd sawl riant pa mor anhygoel o gefnogol oedd y staff, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi ym mhob agwedd, gan gynnwys ymchwilio i unrhyw beth nad oeddent yn siŵr ohono er mwyn helpu'r plant a'r teuluoedd. Lle y bo'n

bosibl, roedd y plant yn cael eu hannog i gynnal eu sgiliau a'u hymdeimlad o annibyniaeth.

Roedd yn amlwg o werthuso'r holiaduron ac yn ystod yr arolygiad bod preifatrwydd yn cael ei barchu. Yn ogystal, cadarnhaodd yr adborth gan deuluoedd hefyd fod y plant yn cael gofal da ac roedd yn gadarnhaol iawn gyda'r plant yn cael preifatrwydd ac urddas mewn gofal. Atgyfnerthwyd hyn wrth gerdded yn y coridorau/ardaloedd y wardiau lle roedd y nyrsys yn sicrhau bod y drysau ar gau a'r llenni wedi'u tynnu wrth wisgo'r plant a rhoi sylw i'w hanghenion.

Dywedodd pob ymatebydd arolwg AGIC ond un wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth i'w blentyn.

Roedd ystafelloedd gwely'r hosbis yn caniatáu i'r plentyn/person ifanc orwedd, ar ôl iddynt farw, mewn amgylchedd heddychlon, gan roi'r cyfle i'w rieni/rhieni a'i ffrindiau ffurfiol yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Roedd gardd dawel hefyd a oedd yn darparu lle preifat i'w ddefnyddio gan deuluoedd yn eu profedigaeth, yn ogystal ag ardal amlffydd / bugeiliol ar y safle. Roedd yr ysbyty aciwt lleol hefyd yn defnyddio'r ystafell hon ar ôl marwolaeth. |

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Casglodd cyfweiliadau gyda theuluoedd fod y staff yn gwrandao ar blant neu eu teuluoedd/gofalwyr ac yn cymryd amser i esbonio'u gofal iddynt. Pan ofynnwyd a oeddent wedi bod yn rhan o drafodaethau am eu plentyn, atebodd pawb ond un eu bod yn gymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno bod.

O'r cofnodion a samplwyd gennym, roedd proses penderfyniadau Pediatrig Uwch (PAC) ar waith bob amser, a oedd yn cynnwys meddyliau a dymuniadau gofalwyr/perthnasau agosaf. Defnyddiwyd hyn yn lle Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) ar gyfer plant. Roedd y broses hon yn aml yn cael ei chwblhau cyn derbyn y claf. Er gwaetha'r ffaith iddo gael ei greu cyn derbyn, byddai'r cynllun PAC yn cael ei drafod â rhieni a'r meddyg ymgynghorol gofal lliniarol a'r arbenigwr nyrsio clinigol i sicrhau ei fod yn gywir, yn gynhwysol ac yn gyfredol.

Roedd gan yr hosbis lawer o adnoddau ar waith i gefnogi'r broses o roi gwybodaeth yn ogystal â staff arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys therapydd chwarae, arbenigwr cerddoriaeth, cyfarpar electronig a darluniadol i gefnogi anghenion plant gwahanol a'u gallu i gyfathrebu. Yn ogystal, roedd tyllino, adweitheg a thyllino'r pen ar gael, y gallai'r staff hefyd ei ddefnyddio ar gyfer eu llesiant.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom hysbysfyrddau ar waliau mewn coridorau yn dangos gwybodaeth glir iawn am y staff a oedd ar ddyletswydd gydol y dydd a'r nos gyda ffotograffau a gradd.

Roedd gan yr hosbis ddatganiad o ddiben cynhwysfawr a chanllaw i gleifion ar waith a oedd yn bodloni gofynion y rheoliadau o ran ei gynnwys. Anfonwyd y ddwy ddogfen at yr holl ddarpar blant a'u teuluoedd a oedd yn esbonio'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu fel therapïau, arlwyo, ymweld, parcio, y gwasanaethau sydd ar gael a sut i fynegi pryderon neu roi adborth.

Er nad oedd dolen sain ar gael, esboniodd y rheolwr ei fod yn ymdrin â phob achos yn unigol. Sicrhaodd yr hosbis y gallent gael taflenni gwybodaeth wedi'u cyfieithu lle y bo angen. Roeddent yn defnyddio Gwasanaeth Cyfieithu Cymru trwy'r Bwrdd Iechyd. Roeddent hefyd yn defnyddio cyfieithu ar-lein a chyfieithwyr preifat. Cadarnhaodd y teuluoedd fod gwybodaeth ar gael iddynt a bod y cyfathrebu gan staff yn dda.

Roedd y timau o staff yn brofiadol iawn wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif a'i chyfleu. Cafodd y staff perthnasol hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu uwch.

Roedd y staff yn ymwybodol iawn o'r angen am ddisgresiwn a sensitifrwydd wrth gyfathrebu neu rannu gwybodaeth am blentyn. Gwelsom feddyg yn cael trafodaeth gyda nyrs mewn perthynas â phlentyn o flaen cyfieithydd a'u ofalwr. Roeddent yn sensitif iawn ac yn briodol wrth ddefnyddio iaith ac wrth gynnwys y plentyn a'r gofalwr.

Roedd arwyddion i'w gweld ar ddrysau toiledau'r adain gofal, a oedd yn agored i bawb, gan gynnwys y rhai ag amhariadau synhwyraidd neu anghenion gwybyddol.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd dull tîm amlddisgyblaethol o ddarparu gofal, gyda phrosesau cyfathrebu da ar waith. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu gofal unigol i blant yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol gyda theuluoedd yn cynnwys eu helpu i geisio cyngor cyfreithiol y tu allan i'r hosbis gan nad oedd timau cyfreithiol yn yr hosbis.

Rhoddodd y staff wybod i ni am fentrau oedd yn cael eu defnyddio i'w helpu gyda chynlluniau gofal ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, amhariadau synhwyraidd neu anghenion gwybyddol. Gwnaethom astudio gwaith papur a oedd yn dangos diagnosis y plant a sut y cafodd eu hanghenion eu nodi gan ddefnyddio dull gofalu cyfannol, gan gynnwys rhieni a safbwyntiau gweithwyr iechyd proffesiynol. Roedd arbenigwyr a thimau gwahanol ar gael i'r hosbis am gymorth penodol, er enghraifft tîm anadlu allanol a allai gynnig cyngor dros y ffôn.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i fod yn weithgar ac yn cael cyfarpar i'w helpu i gerdded, symud, bwyta, gwranddo neu weld, i'w cyfyngiadau eu hunain. Roedd gan yr hosbis gyfarpar o ansawdd uchel gan alluogi plentyn i chwarae gemau electronig gan ddefnyddio symudiad eu llygaid yn unig i chwarae. Roedd annibyniaeth yn cael ei hyrwyddo gyda'r cyfarpar a oedd ganddynt, gan gynnwys pwll hydrotherapi lle y gallai plant â phob cyflwr fwynhau'r cyfleuster dan oruchwyliaeth aelod o staff gyda chymwysterau addas. Roedd yn amlwg bod y gofal i blant yn canolbwyntio ar y plant ac roedd y staff yn wybodus iawn mewn perthynas â dewisiadau ac anghenion plant unigol, yn enwedig y rhai sy'n dod yn rheolaidd am seibiant. Rhoddir cymorth wedi'i deilwra at yr unigolyn clir i ofalwyr a holl aelodau'r teuluoedd.

Roedd meddyg ymgynghorol ar y safle ar sail ran-amser, ond roedd tîm ar alw y gellid cysylltu ag ef am gyngor hefyd.

Gwelsom y gallai'r plant gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i sicrhau eu bod yn treulio amser yn gwneud y pethau maent yn eu mwynhau, gan gynnwys cerddoriaeth, cyfrifiaduron, arbenigwyr chwarae, therapi anifeiliaid anwes ac achlysuron thematig. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo bod y posibiladau i sicrhau bod hobiau, diddordebau, gwaith ac addysg o fewn cyrraedd y plentyn, bron yn ddigyfyngiad oherwydd tîm Tŷ Hafan, a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr di-dâl.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod yr holl rieni ynghlwm wrth gynllunio gofal eu plentyn, o'i dderbyn, ac yn barhaus, yn enwedig lle nad oedd y plentyn yn gallu cyfathrebu ei anghenion.

Nododd ymatebion y teulu a'r gofalwyr i'r holiadur y canlynol:

- Dywedodd pawb a atebodd fod y staff yn eu hannog i ofyn cwestiynau am ofal eu plentyn a bod y staff yn eu galluogi a'i hannog i ofalu am eu plentyn tra'r oeddent yn yr hosbis.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau ynghylch gofal eu plentyn
- Atebodd pawb fod y staff wedi trafod cynllun gofal y plentyn â nhw.

Roedd sylwadau'r rhieni yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gofal yn eithriadol bob amser. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei arwain gan anghenion a dewisiadau gofal unigol ein plentyn. Mae'r gofal yn gyfannol ac yn edrych ar y darlun cyfan bob amser, nid dim ond un maes. Mae pawb yn cydweithio i ddarparu'r bywyd o'r ansawdd gorau posibl i'n plentyn.”

“Roedd lefel y gofal i'n mab ac i ni ein hunain yn rhagorol. Dyna beth oedd 'rhodd'.”

“Nid ydym erioed wedi cael unrhyw bryderon am y gofal maent yn ei ddarparu. Ar ddau achlysur dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r tîm wedi codi materion eu hunain ac wedi rhoi cynllun manwl i ni er mwyn osgoi'r materion hynny yn y dyfodol. Mân bethau oedd y rhain ond mae'n rhoi'r hyder i ni y byddant yn onest ac yn broffesiynol bob amser pan fyddant yn gofalu am ein mab...” |

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r plant.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd gan yr hosbis bencampwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant amryfal ar waith ac roedd aelod o'r bwrdd hefyd yn arweinydd bwrdd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant dynodedig. Roedd sawl polisi cyfredol ar waith, ochr yn ochr â phrif bolisi cydraddoldeb, gan gynnwys gweithio hyblyg, gwrth-fwlio ac aflonyddu a pholisi gweithio hybrid. Dywedwyd wrthym fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd yn cael eu hystyried yn ystod recriwtio.

Dywedwyd wrthym fod plant yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu ac roedd pob ystafell yn aml-rywedd. Rhoddwyd addasiadau ar waith i'r rhai ag anghenion ychwanegol neu gymhleth. Roedd cyfarpar olrhain llygaid, adnoddau cyfathrebu, adnoddau chwarae synhwyrdd - gan gynnwys ystafell synhwyrdd lawn - ar gael. Yn ogystal, roedd penderfyniadau yr oedd angen eu gwneud ar gyfer y gwasanaeth yn gynhwysol lle roedd modd cynrychioli'r fforwm ieuenctid a theuluoedd.

Roedd y cynlluniau PAC yn cynnwys dewis iaith a dewis rhywedd a rhagenwau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i deuluoedd/gofalwyr wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r hosbis yma. Fodd bynnag, atebodd un aelod o'r staff ei fod yn teimlo iddo wynebu gwahaniaethu yn y gwaith ar sail un o'r nodweddion gwarchoddedig niferus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dywedodd pob aelod o'r staff ond un nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn ogystal, dywedodd pob aelod o staff ond un a atebodd, fod yr holl staff yn cael mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle (ni waeth beth fo'u Hoedran, Anabledd, Ailbennu rhywedd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Hil, Crefydd neu gred, Rhyw a Chyfeiriadedd rhywiol).

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gweithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion ac ar y wefan. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau.

Roedd tystiolaeth fod yr hosbis wedi gofyn am adborth gan blant a'u gofalwyr am eu profiad o ddefnyddio'r hosbis, a adroddwyd i'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn fisol ac i'r pwyllgor llywodraethu clinigol, a oedd yn cynnwys ymddiriedolwyr yr hosbis, yn chwarterol.

Roedd fforwm ieuenctid cryf wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â materion ar gyfer pobl iau drwy adborth fel pryderon neu syniadau penodol. Roedd hwn yn gyfrwng arall hefyd i ddarparu gwybodaeth i blant ac i gael gwybodaeth ganddynt, gan sicrhau bod y wybodaeth yn briodol i oedran y bobl ifanc ac yn rhoi llais iddynt.

Darparwyd sawl enghraifft lle defnyddiwyd adborth y plant / gofalwyr i lywio gwelliannau. Roedd hyn yn cynnwys creu ffau ac ystafell sinema yn ystod y gwaith adnewyddu. Sicrhawyd bod y canlyniadau o adborth y plant / gofalwyr ar gael, ynghyd â sut y gweithredwyd ar eu hadborth ar fwrdd 'dywedo chi, gwnaethom ni' a oedd yn cael ei ddiweddarau'n fisol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd yn lân, yn daclus, yn olau, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod asesiadau risg cyffredinol a phenodol ar waith ar gyfer bron pob posibilad, er mwyn lleihau neu liniaru'r risg o anaf neu niwed i blant, staff neu ymwelwyr. Cafodd y rhain eu cwblhau'n foddhaol. Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal y plant, gwelsom fod asesiadau risg o gwmpo ac asesiadau risg o friwiau pwysu yn cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o achosion wrth i'r plant gael eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd modd cael gafael ar nyrs hyfywedd meinwe os oedd angen. Fodd bynnag, o'r pum cofnod a wiriwyd, nodwyd un enghraifft lle nad oedd asesiad risg o gwmpo wedi'i gynnal. Er bod asesiadau ar waith ar gyfer cwmpadau yn gyffredinol, roedd llywio system cofnodion cleifion yn eithaf anodd ac mae'n bosibl nad oedd modd ei lywio'n hawdd gan staff asiantaeth neu locymau a all ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r dogfennau hyn ar y system electronig os oedd angen.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff asesiadau risg o gwmpo eu cwblhau ar gyfer pob claf wrth iddo gael ei dderbyn.

Dylai'r cyflogwr ystyried cyflwyno fformat safonol ar gyfer cofnodion cleifion.

Cafodd pob cwpwrdd a oedd yn cynnwys cemegau glanhau eu cloi'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (Cosh). Gwelsom hefyd fod arwyddion ar gael i nodi peryglon, fel arwyddion 'llawr gwlyb' melyn yr oedd modd eu symud.

Roedd gerddi helaeth yn Tŷ Hafan a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd gan yr ardaloedd chwarae ar y tir gyfarpar a oedd yn ystyried anghenion y plant. Roedd adran ystadau a oedd yn monitro'r tir ac yn rheoli'r staff a'r gwirfoddolwyr a oedd yn gofalu am y tir yn rheolaidd er mwyn helpu i gynnal a chadw'r ardaloedd awyr agored. |

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da iawn ar waith yn yr hosbis i bob golwg. Roedd gan ystafell chwarae'r plant lawer o gyfarpar ond nid oedd i'w gweld yn anniben. Nid oedd llwch i'w weld o edrych ar ardaloedd uchel a'r tu ôl i deganau ar silffoedd. Gwelsom fod teganau meddal yn cael eu chwistrellu â niwl diheintio ar ôl i bob plentyn eu defnyddio.

Roedd amgylchedd cyfan yr hosbis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau i bob golwg, gan gynnwys murlun o ddwylo wedi'i beintio

ar hyd waliau amrywiol, gyda phaneli perspex drostynt y gellid eu tynnu i ffwrdd er mwyn glanhau'r waliau y tu ôl yn drwyadl.

Roedd pob ystafell wely, yr ystafell chwarae, yr ystafell synhwyrdd ac ystafelloedd eraill yn cael eu glanhau'n ddwfn a'u chwistrellu â niwl diheintio rhwng plant. Roedd yr ystafelloedd hefyd yn cael eu glanhau'n ddyddiol gan ddilyn amserlen lanhau ddyddiol. Roedd weips diheintio antiseptig yn cael eu defnyddio yn gyffredinol i lanhau'r cyfarpar oni fyddai angen eu glanhau'n drylwyr. Roedd sticeri 'I am clean' yn cael eu defnyddio i ddangos i'r defnyddiwr nesaf fod y cyfarpar hwnnw a'r ystafell yn ddi-haint. Roedd hydoddiannau glanhau seiliedig ar glorin yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd clinigol ac roedd yr adran cadw tŷ yn gwahanu eu cyfarpar glanhau i lanhau ardaloedd heintiedig.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu, a gwelsom fod y staff yn defnyddio hwn mewn modd priodol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r hyn oedd i'w wneud, pe bai claf yn cael ei anafu gan nodwydd.

Oherwydd natur yr hosbis, roedd y cyfraddau heintio'n cael eu monitro'n agos. Ni wnaeth yr hosbis sgrinio am Staffylococcus Aureus Ymwrthol i Methisilin (MRSA) na Carbapenemase sy'n cynhyrchu Enterobacteriaceae (CPE) ar gyfer plant sy'n dod i mewn o ysbytai eraill gan fod y plant yn dod gan amlaf i dreulio'u diwrnodau olaf os oeddent wedi cael eu trosglwyddo o ysbytai eraill. Fodd bynnag, roedd yr hosbis yn llym iawn ynghylch heintio staff. Roedd yr holl staff yn deall pwysigrwydd peidio â mynd i'r gwaith os oedd ganddynt arwyddion o feirws neu haint. Roedd y tîm rheoli yn monitro salwch y staff yn agos ac yn cefnogi'r staff fel y bo angen.

Gwnaethom nodi bod cydymffurfiaeth y staff â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn cael ei monitro drwy raglen archwilio reolaidd a chynhwysfawr, yn ogystal ag asesiad risg a hyfforddiant staff.

Dywedodd yr holl staff yn yr holiadur bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. |

|Maeth

Roedd bwyd maethlon ac iach yr olwg yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ffreutur staff a phlant cymysg. Roedd y bobl ifanc yn hapus iawn â'r ymgysylltiad hwn, hyd yn oed os oeddent yn cael bwyd mewn ffordd amgen.

Roedd anghenion deietegol arbenigol yn cael eu rheoli megis y rhai trwy diwb Gastrostomi Endoscopig Drwy'r Croen (PEG) a thiw b trwy'r trwyn i'r stumog (NG).

Roedd y staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r rhain, drwy gymwyseddau, yn ogystal â chael eu hasesu ar y ward a chael asesiad risg llawn.

Wrth archwilio'r ffeiliau gofal ac o drafod â'r staff, gwelsom fod arferion bwyta ac yfed ac anghenion maethol y plant wedi'u nodi yn eu hasesiad cychwynnol ac yna eu monitro am newidiadau drwy gydol y broses o'u derbyn. Roedd y llwybr ar gyfer bwydo'n cael ei gynllunio trwy'r deietegydd ac roedd anghenion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y gwaith papur yn cael ei gadw yn y nodiadau gofal a'i drosglwyddo i'r bwrdd "cipolwg ar ddiogelwch cleifion" yn swyddfa'r nyrsys.

Roedd y polisiâu maeth oedd ar waith yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), gan nad oedd Llwybr Maethol Cymru Gyfan yn benodol i blant. |

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel, gan gynnwys cyffuriau a reolir. Roedd dau aelod o staff cymwys yn gwirio'r cyffuriau a reolir oedd yn dod i mewn ac yn mynd allan ac roeddent yn cael eu gwirio eto pan oedd y shifftiau'n newid. Gwelsom fod gwiriadau wythnosol yn cael eu cofnodi yn y llyfr cyffuriau a reolir.

Gwnaethom edrych ar y polisi rheoli meddyginiaethau ar gyfer Tŷ Hafan, a oedd yn gyfredol ac wedi cael ei adolygu.

Roedd yr hosbis yn cyflogi fferylllydd rhan amser. Nid oedd mynediad i fferyllfa y tu allan i oriau.

Er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth a roddir i blant yn cael ei rheoli'n effeithiol, roedd gan yr hosbis siartiau meddyginiaeth ar bapur ac roedd yn defnyddio Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain a llyfr fformiwlâu gofal lliniarol i wirio bod y dosau meddyginiaeth yn gywir. Roedd dosau oedolion a phlant wedi'u cynnwys yn y feddalwedd hon. Yn aml, byddai'r cyfrifiadau cyffuriau yn ystyried pwysau'r plentyn, roedd y rhain yn cael eu storio ar y system a'u diweddarau'n rheolaidd. Er mwyn lliniaru'r risg o wallau meddyginiaeth hyd eithaf eu gallu, roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant trwyadl.

Gwelsom fod silindrau ocsigen yn cael eu defnyddio yn yr hosbis, roedd pob un yn cael ei storio'n ddiogel ac roedd y staff perthnasol i gyd wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Pe bai digwyddiad, byddai hyn yn cael ei gofnodi ar system Radar, system gofal iechyd, a byddai'n cael ei ymchwilio iddo a byddai camau'n cael eu cymryd os oedd angen, gallai hyn gynnwys hyfforddiant ychwanegol er enghraifft.

Yn lle bandiau garddwrn, roedd gan siart pob plentyn ffotograff o'r plentyn a oedd yn cael ei wirio gyda'r nyrs oedd yn rhoi'r feddyginiaeth. Arsylwyd rownd meddyginiaeth o'r ward yn ystod yr arolygiad. Nodwyd bod gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn ar wiriadau meddyginiaeth. Cafodd y plant eu hail-leoli yn barod ar gyfer eu meddyginiaeth, a gafodd ei gwirio a'i rhoi yn unol â'r dds, y llwybr a'r amllder a oedd wedi'u rhagnodi. Yn yr achosion prin lle mae plant yn hunanfeddyginiaethu, byddai asesiadau risg yn cael eu rhoi ar waith o gwmpas hyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan yr hosbis fariâu codi wrth y fynedfa at ddibenion diogelwch. Roedd drysau'r hosbis wedi'u cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod ac yn ystod oriau swyddfa, roedd derbynnydd a oedd yn rheoli mynediad ac ymadawiad trwy'r drysau yn electronig a gallai hefyd wrthod mynediad.

Roedd y plant yn cael eu goruchwylio'n gyson oherwydd y gofynion diogelwch mewn perthynas â'u cyflwr ac yn achlysurol, oherwydd ymddygiad. Cafodd y gofalwyr a'r rhieni eu hannog i aros gyda'r plant oni fyddai'r plentyn yn yr hosbis i gael gofal seibiant.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac roeddent wedi'u hyfforddi i lefelau priodol. Cwblhawyd siartiau map o'r corff wrth dderbyn i nodi unrhyw farciau ar y corff. Byddai unrhyw bryderon yn cael eu codi gyda'r arweinwyr diogelu yn y lle cyntaf. Cysylltodd yr arweinwyr diogelu â'r awdurdod lleol a rhannwyd a dilynwyd y risgiau a'r cyngor.

Roedd derbyniadau brys yn brin iawn y tu allan i oriau, ond gallai hyn ddigwydd ar gyfer gofal diwedd oes neu bryderon cymdeithasol eithafol. Byddai gweithwyr cymdeithasol yn hebrwng y plant i'r hosbis os oedd pryderon lles cymdeithasol. Roedd hyfforddiant manylach y staff hefyd o gymorth i gefnogi plant yn briodol yn yr amgylchiadau hynny.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o gyfarpar meddygol a oedd mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol trwy'r adran cyfleusterau mewnol neu gwmnïau allanol o dan gontractau a reolir gan yr adran cyfleusterau.

Roedd yr holl ddyfeisiau oedd yn ofynnol ar gael ac yn briodol i'r grŵp cleientiaid. Trefnodd yr adran cyfleusterau ar y safle y profion ar gloriannau, gwelyau a slingiau a hefyd ar gyfer profion ar offer cludadwy (PAT). Ar gyfer eitemau mwy o faint, gwelsom fod rhai ohonynt dan warantî ac roedd ganddynt gynlluniau gwasanaethu. Roedd yr adran cyfleusterau wedi gwneud trefniadau am waith gwasanaethu pellach pan oedd angen ar gyfer y rhai a oedd wedi dod i ben.

Lle canfuwyd diffygion gan staff, byddent yn cysylltu â'r adran cyfleusterau a dywedwyd wrthym fod camau prydlon yn cael eu cymryd bob amser. Byddai eitemau'n cael eu tynnu ymaith ac yn cael eu trwsio neu eu gwaredu mewn ffordd briodol. Yn yr un modd, roedd yr adran technoleg gwybodaeth (TG) yn gwneud yr un peth ar gyfer cyfarpar cyfrifiadurol.

Roedd y cofnodlyfr cyfarpar meddygol yn dangos cyfarpar fel gyrwyr chwistrell, nebiwlyddion, thermomedrau a pheiriannau arwyddion hanfodol i fywyd, gyda dau gwmni allanol yn cael eu defnyddio pan fyddent yn torri. Darparodd y ddau dystysgrif ar gyfer unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol a rhoddwyd y gorau i ddefnyddio unrhyw eitemau diffygiol.

Gwnaethom wirio'r troli adfywio mewn argyfwng, i'w ddefnyddio mewn argyfwng gyda chlaf. Roedd hyn wedi'i drefnu'n dda ac roedd yn cynnwys yr holl gyfarpar brys priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn ac roedd cofnodlyfrau gwirio cyfarpar wedi'u cwblhau.]

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[Roedd bwrdd “cipolwg ar statws cleifion” yn swyddfa'r tîm gofal, a oedd wedi'i gloi. Nid oedd gwybodaeth a oedd yn adnabod plant i'w gweld y tu allan i'r ystafell hon. Roedd gwybodaeth gyfredol ar hon yr oedd y tîm gofal wedi'i nodi ei bod yn ofynnol. Nodwyd gofynion arsylwi ar y bwrdd ar ffurf magnetau o liwiau gwahanol.

Gwelsom fod y siartiau arwyddion rhybudd cynnar pediatrig yn cael eu defnyddio ar gyfer pob claf. Nododd hyn sbardunau ar gyfer monitro pellach a sepsis. Roedd yr holl staff wedi'u hyfforddi i nodi'r risg o sepsis a byddai'r staff cofrestredig yn rhoi ocsigen a pharasetamol lle y bo'n briodol ond ni fyddent yn rhoi gwrthfotigau na hylifau. Os yn briodol, byddai'r plant yn cael eu trosglwyddo i'r ysbyty ar frys drwy'r gwasanaethau brys.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom dystiolaeth o blentyn yn cael ei drosglwyddo cyn pen 10 munud o ffonio'r gwasanaethau brys. Dangosodd hyn ddull adnabod ac ymateb cyflym. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio wrthym eu bod yn y broses o drefnu lleoliadau ar gyfer staff yn y sector aciwt er mwyn gwella eu sgiliau a'u hyder o ran meddyginiaeth, gosod canwla a fflebotomi. Y cynllun tymor canolig yn yr hosbis oedd gallu rhoi hylifau mewnwythiennol neu feddyginiaeth i'r plant os oedd angen. |

Rheoli cofnodion

[Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud â'r plant neu'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Gwelsom hyn yn y cofnodion papur ac electronig. Roedd y cofnodion gofal plant yn cael eu cynnal yn dda a'u diweddarau yn ôl y disgwyl.

Roedd y system ffeilio a'r cloriau yn helpu i osod ffeiliau mewn ffordd a oedd yn hawdd eu llywio. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn flaenorol, dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn eithaf anodd eu llywio yn electronig.

Nodwyd arfer da gan mwyaf yng ngwaith cadw cofnodion y nodiadau gofal, ond, gellid gwneud rhai gwelliannau i'r gwaith cadw cofnodion, fel a ganlyn:

- Nid oedd siart troi
- Nid oedd yr adnodd graddio briwiau pwyso yn cael ei ddefnyddio yn y nodiadau gofal. Roedd poster yn swyddfa'r tîm gofal gyda'r radd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddefnyddio'r adnodd sgorio yn y practis. Roedd dibyniaeth ar farn broffesiynol yr aelodau unigol o'r staff a oedd yn cael ei hadlewyrchu a'i chynrychioli'n wael ar gyfer yr asesiad ardal bwysu yn y cofnodion gofal.
- Fel rheol, byddai'r aelod o'r staff sy'n gwneud cofnodion yn y cofnod gofal yn rhoi ei enw ond byddai angen iddo hefyd gynnwys ei radd, gan nad oedd yn glir ai aelod cymwysedig neu anghymwys o'r staff oedd wedi ysgrifennu'r cofnod gofal.
- Mewn perthynas â'r sgôr poen ar ôl gwirio pump o blant, roedd dwy enghraifft lle nad oedd y sgôr poen wedi'i chwblhau yn gywir. Er bod y gwerthusiad a ddogfennwyd ar gyfer un plentyn yn cael ei gwblhau yn rheolaidd o ran analgesia, nid oedd yr asesiad poen o'r Wyneb, Coesau, Gweithgarwch, Crio, Gallu i Gysuro wedi'i gynnal ers y llynedd. Nid oedd y staff i'w gweld yn defnyddio sgôr poen yn uniongyrchol o fewn eu gwerthusiad. O ran plentyn arall nad oedd mewn poen yn aml, er bod dystiolaeth ar gael yng ngwerthusiad y nyrs ei bod wedi gofyn i'r plentyn am boen, ni chyfeiriwyd at sgôr poen. Ni roddwyd sgôr angenrheidiol i bob meddyginiaeth lleddfu poen gradd isel, ac o ganlyniad, gallai patrwm gael ei golli. Dylid gwneud cofnod a rhoi sgôr i unrhyw un gydag unrhyw boen.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- **Bod siart troi ar gael i'r staff gyfeirio ati**
- **Rhaid defnyddio'r adnoddau graddio briwiau pwyso o fewn y nodiadau gofal**
- **Rhaid i'r staff gynnwys eu gradd yn ogystal â'u henw**

- Rhaid defnyddio'r sgôr poen yn gyson a phryd bynnag y bydd unrhyw blentyn yn mynegi poeni a'r angen i gael meddyginiaethau lleddfau poen. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cyhoeddodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y staff am Hosbis Plant Tŷ Gobaith a'u profiad o weithio yno. Roedd yr holiadur yn ategu arolygiad AGIC a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024. Cafwyd cyfanswm o 40 o ymatebion gan staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rhai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd 40 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Roedd pawb a ddarparodd sylwadau wedi cytuno y gallai eu sylwadau gael eu cyhoeddi'n ddiennw yn adroddiad arolygu AGIC.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob aelod o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn ei roi i blant. Roedd yr holl staff yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hosbis iddyn nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu ac roeddent yn argymhell eu hosbis fel lle da i weithio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn amlwg bod arweinyddiaeth a llywodraethu cryf yn yr hosbis. Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o staff, gan gynnwys ymddiriedolwyr ac roeddent yn glir o ran eu rôl ac o ran sut roeddent yn ffitio i mewn i lywodraethiant y sefydliad.

Roedd gan yr uwch-aelodau o'r staff ddogfennaeth berthnasol, gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau ar gael ar gyfer yr arolygiad ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan yn y broses arolygu.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion diweddaraf. Roedd y ddau ohonynt ar gael yn yr hosbis, roeddent wedi'u hanfon at ddarpar blant ac ar wefan yr hosbis yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y dogfennau'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn unol â'r rheoliadau.

Dywedwyd wrthym fod yr holl wasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r Weithdrefn Weithredu Safonol a bod yr hosbis yn sicrhau eu bod yn meincnodi yn erbyn hyn bob blwyddyn. Roedd cofrestrriad AGIC yn galluogi ar gyfer gofalu am ddeg claf (plant) ar unrhyw adeg benodol. Roedd y lleoliad yn gweithredu fel ward naw gwely, gydag un gwely'n cael ei ddefnyddio fel ystafell hyfforddi sgiliau clinigol.

Gwelsom y strwythur sefydliadol yn electronig ac ar gofnodion papur. Roedd strwythurau'r timau hefyd yn cael eu harddangos ar waliau'r coridorau yn arwain at y ward.

Roedd mesurau ar waith i roi argymhellion o unrhyw hysbysiadau diogelwch a gafwyd. Roedd y staff gweinyddol yn cael pob rhybudd meddyginiaeth ac roeddent yn eu hanfon at y fferyllydd a'r arweinwyr tîm ar unwaith bob dydd i'w gweithredu. Os oedd angen i'r fferyllydd dynnu meddyginiaeth neu archebu rhagor mewn achos o brinder, byddai hyn yn cael ei wneud.

Dywedwyd wrthym am rybudd diogelwch a oedd yn nodi uchder canllawiau'r gwelyau pediatrig a'r gydymffurfiaeth yn hyn o beth. Nid oedd rhai gwelyau yn yr hosbis yn bodloni'r canllawiau newydd ac roedd rhaid archebu rhai newydd. Oherwydd y cyfyngiadau amser wrth archebu, rhoddodd y lleoliad asesiad risg ar waith hyd nes i'r gwelyau newydd gael eu caffael a'u cyflenwi.

Cafodd yr holl newidiadau perthnasol oherwydd hysbysiadau diogelwch eu rhannu'n fewnol gyda staff mewn cyfarfodydd dyddiol, negeseuon e-bost, sesiynau un i un a hysbysfyrddau electronig.

Wrth sgwrsio â'r staff ar bob lefel, roedd yn amlwg eu bod yn eithriadol o falch o'u rolau ac yn gwneud eu gorau dros y gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo bod eu rheolwr uniongyrchol yn ymgynghori â nhw cyn i benderfyniadau cael eu gwneud a oedd yn effeithio ar eu gwaith. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu â thasg anodd yn y gwaith a'i fod yn rhoi adborth iddynt ar eu gwaith, yn ogystal â bod yn gefnogol mewn argyfwng personol. Roedd y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn gadarnhaol yn yr holiadur yn eu sylwadau ar uwch-reolwyr.

Roedd rheolwr llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl bolisiâu ar gyfer y sefydliad yn cael eu hadolygu. Roedd system olrhain ar waith yn dangos pob polisi, pwy oedd yr arweinydd, y dyddiad adnewyddu a phwy oedd angen i gymeradwyo'r adolygiad. Roedd y dull rheoli fersiynau polisiâu a gweithdrefnau mewn trefn, yn ogystal â'r gwaith o fonitro pan oedd adolygiadau yn ddisgwyliedig.

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod ganddynt bolisi drws agored os oedd unrhyw staff yn dymuno siarad â nhw. Gwelwyd tystiolaeth hefyd o waith cydlynol mewn timau a rhyngddynt. |

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion, mewn taflen o'r enw "gwneud cwyn am Tŷ Hafan" ac ar ei wefan. Darparwyd y dogfennau hyn i blant a gofalmwyr cyn derbyn y plant i'r hosbis ac roeddent ar gael ar ffurf copi caled yn y lleoliad.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn ymwneud â digwyddiadau, a chanfod yr ymdriniwyd â nhw yn unol â pholisïau'r hosbis. Gwnaethom adolygu un digwyddiad o'r 12 mis diwethaf a dangoswyd y broses gyfan, o'r dechrau i'r diwedd i ni. Cafodd yr holl ddogfennaeth ofynnol ei chwblhau'n drylwyr, rhoddwyd gwybod i bob asiantaeth angenrheidiol. Gallem weld bod aelodau o staff a theulu a oedd ynghlwm yn cael eu diweddarau ar bob cam o'r broses. Roedd hyn hefyd yn enghraifft dda iawn o'r ffordd roedd y rheolwyr wedi gwneud newidiadau i adrodd ac ymchwilio.

Yn yr un modd â chwynion a phryderon, roedd y dogfennau a adolygwyd gennym yn dilyn polisi. Gwelsom fod themâu cyffredin yn cael eu dadansoddi. Dangosodd hyn bum cwyn ac un pryder yn ystod y 12 mis diwethaf. Dangosodd y dadansoddiad hefyd i'r hosbis ymdrin â'r cam gweithredu i'r un pryder hwnnw yn gyflym, sef argymhelliad gan yr adran ddiogelu bod y gwasanaeth yn rhoi gweithdrefn ar waith i sicrhau cyfathrebu amserol.

Yn yr holiadur, gwnaethom ofyn i'r staff ynglŷn â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a phryderon. Dywedodd pob un a atebodd fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau ac roedd pawb ond un a atebodd yn meddwl bod y staff sy'n gysylltiedig ag unrhyw achosion o'r fath yn cael eu trin yn deg. Dywedodd pob ymatebwr wrthym eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am bryder am arferion clinigol anniogel. |

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth

Roedd y broses recriwtio staff yn cael ei rheoli gan yr adran Adnoddau Dynol ac roedd polisi a gweithdrefnau cadw a recriwtio cyfredol ar gael. Roedd yr holl wiriadau a fetio angenrheidiol yn cael eu cynnal ac ar ôl i bob gwiriad gael ei gwblhau, byddai'r cyflogai newydd yn dechrau ar broses sefydlu gynhwysfawr.

Roedd meddygon ymgynghorol a meddygon teulu locwm yn cael eu recriwtio mewn ffordd debyg i staff parhaol. Fodd bynnag, roedd hyn o dan y polisi 'braint ymarfer'. Mewn achosion prin, bu gwyro o'r drefn recriwtio lle rhoddwyd caniatâd am hepgoriad braint brys, fel arall byddai contract yn ei le.

Er mwyn sicrhau bod cofrestrriad gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gyda'u corff rheoliadol yn parhau i fod yn gyfredol ac er mwyn gwirio bod yr holl staff yn parhau i fod yn addas ar gyfer gwaith, roedd arweinydd datblygiad proffesiynol yr hosbisau yn cadw cofnodion ac yn olrhain ar gyfer hyfforddiant ail-ddilysu a hyfforddiant gorfodol.

Yn ogystal, roedd Adnoddau Dynol yn cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod gan staff ofynion datblygiad proffesiynol i'w dilyn, yn orfodol ac unrhyw beth ychwanegol a oedd yn ofynnol.

Yn ogystal, roedd gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gontract allanol ar gael i'r staff. |

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd yr holl staff yn destun proses sefydlu gynhwysfawr, ac yn ystod yr amser hwnnw, byddent yn cael eu hystyried fel aelod o staff ychwanegol am fis o leiaf. Pan oedd yr hosbis a'r staff yn hyderus ac yn gymwys i weithio, byddent yn dechrau gweithio heb oruchwyliaeth. Os oedd angen mwy o amser, byddai hyn yn cael ei ddarparu ar ei gyfer. Roedd anghenion yr holl staff yn cael eu dadansoddi'n barhaus ac roedd y staff yn teimlo bod y rheolwyr yn gefnogol iawn.

Roedd tystiolaeth bod adolygiad blynyddol cynhwysfawr yn cael ei gynnal o staff, yn ogystal ag adolygiadau canol blwyddyn. Roedd y rhai nad oeddent yn bodloni'r gofyniad am adolygiad blynyddol yn destun cyfnod prawf o chwe mis gyda gwiriadau rheolaidd drwy'r cyfnod hwnnw.

Roedd digon o staff gyda chymwysterau priodol, profiadol a chymwys i ddarparu gofal a thriniaeth diogel i'r plant. Dywedwyd wrthym fod rhaniad 70/30 o staff cymwysedig i staff nad oeddent yn gymwysedig ond yn achlysurol, roedd rhai o radd uwch. Roedd Nyrs â Chyfrifoldeb bob amser nad oedd yn cael ei chynnwys yn niferoedd y staff ac roedd nyrs ar gael bob amser i fynd "lle bo angen" (floater). Roedd derbyniadau yn seiliedig ar y staff oedd ar gael.

Os oedd absenoldeb oherwydd salwch neu os oedd cleifion yn cael eu derbyn ar frys heb ddigon o staff ar ddyletswydd, byddai staff banc yn cael eu defnyddio. Roedd hyn bellach yn cael ei wneud trwy 'gronfa' o staff yr hosbis ei hun a staff a gyflogwyd yn flaenorol a oedd eisiau helpu. Dywedodd llawer eu bod yn teimlo bod y lefel staffio yn drwm yn Tŷ Hafan ond roedd yn golygu bod modd derbyn mwy o gleifion os oedd angen.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu a chynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau ac roedd y diwrnodau proffesiynol hyn yn cael eu talu amdanynt ac ar gael i'r holl staff.

Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Byddai cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn trafod yr holl blant a oedd yn dod i mewn ac allan o'r hosbis yn cael ei recordio'n electronig ddwywaith yr wythnos. Roedd fforwm i staff yn cael ei gynnal unwaith y mis, lle y gallai'r staff drafod unrhyw bryderon/gwelliannau. At hynny, roedd cyfarfodydd eraill yn cael eu cynnal, gan gynnwys fforwm meddyginiaeth.

Dangoswyd cofnodion o grŵp rheoli risg glinigol i ni hefyd. Roedd y rhain yn trafod canlyniadau asesiadau risg, archwiliadau a gwelliannau. Os oedd y staff yn methu

mynd i gyfarfodydd neu edrych ar y cofnodion, roedd teledu'r tîm gofal yn arddangos gwybodaeth bwysig.

Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a gadarnhaodd bod y staff yn cael cyfle i fanteisio ar hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol arall yn ymwneud â'r gwasanaeth. Rhoddwyd copi o gynllun hyfforddi staff yr hosbis i ni a oedd yn gynhwysfawr ac a oedd yn cynnwys rhestr o'r pynciau yr eir i'r afael â nhw, dyddiadau cwblhau a dyddiadau y daw'r hyfforddiant cyfredol i ben. Gwelsom fod digon o staff gyda chymwysterau priodol, profiadol a chymwys a oedd yn cael eu cefnogi i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel i'r plant. Roedd y gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda iawn gyda'r mwyafrif dros 90%. Roedd yr hyfforddiant ychwanegol yn cynnwys hyfforddiant sepsis.

Gwnaethom ofyn am wybodaeth mewn perthynas ag arfarniadau perfformiad a chadarnhawyd bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym mai'r nyrs arwain oedd yn cynnal arfarniadau'r nyrsys a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd. Cafodd y sesiynau hyn eu cofnodi a'u cyflwyno i'r tîm Adnoddau Dynol er mwyn iddynt eu casglu a'u cadw ar ffeiliau unigol y staff. Roedd y staff yn cynnal eu cofnodion o amcanion eu hunain. |

Gofynnwyd cwestiynau am ddatblygiad proffesiynol i'r staff a gwblhaodd yr holiadur, roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

“Rwy'n newydd i'r agweddau rheoli ar y rôl ond rwy'n cymryd rhan yn barhaus yn y llwybr datblygu rheolwyr mewnol a gynigir yn yr hosbis.”

“Gan fod trosiant yn uchel adeg fy nghyfnod sefydlu, ni roddwyd hyfforddiant i ni ar y prif systemau yr oedd eu hangen i wneud fy ngwaith.”

Roedd y cwestiwn i staff ar ofal i ddefnyddwyr gwasanaeth yn dangos y canlynol:

- Roedd pob ymatebydd ond un yn teimlo ei fod yn gallu ateb yr holl ofynion croes ar ei amser yn y gwaith, ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol
- Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn meddwl bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith
- Dywedodd yr holl ymatebwyr fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal

- Dywedodd pawb ond un fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hysbysu am y penderfyniadau am eu gofal, a chawsant eu cynnwys ynddynt.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hosbis Plant Tŷ Hafan

Dyddiad yr arolygiad:01/10/2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Plant Tŷ Hafan

Dyddiad yr arolygiad: 01/10/2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd prinder deunydd hybu iechyd i'w weld yn yr hosbis. Dywedwyd wrthym mai'r hybiau cymunedol sy'n ymdrin â hyn fel rheol.	Dylai'r cyflogwr ystyried y claf a'r grwpiau o ofalwyr yn yr hosbis a chaffael ac arddangos taflenni a phosteri perthnasol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (g) Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd	Nodi poster/taflenni hybu iechyd addas a pharchus i ddefnyddwyr gwasanaeth a fydd yn cynnwys: Gofal deintyddol Bwyta'n iach Rhoi'r Gorau i Smygu Sgrinio'r fron Sgrinio'r coluddyn	Rebecca Bryant (Rheolwr Gweinyddu).	4 Wythnos - l'w gwblhau erbyn 26/12/2024

2.	Er bod asesiadau ar waith ar gyfer cwmpadau, roedd llywio'r system cofnodion cleifion yn eithaf anodd ac mae'n bosibl nad oedd modd ei lywio'n hawdd gan staff asiantaeth neu locymau a all ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r dogfennau hyn ar y system electronig os oedd angen.	Dylai'r cyflogwr ystyried cyflwyno fformat safonol ar gyfer cofnodion cleifion.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23 Rheoli Cofnodion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae pob asesiad risg bellach wedi'i symud i un ardal ganolog ar y gronfa ddata gofal ac mae'r staff yn ymwybodol o ble mae'r rhain nawr yn cael eu storio. Mae cyfarfodydd gyda staff wedi'u cynnal gan y swyddog Cronfa Ddata Gofal er mwyn nodi meysydd allweddol sy'n achosi problemau, a nodi datrysiadau i wneud y system yn haws i'w defnyddio.	Tracy Sullivan (Swyddog y Gronfa Ddata Gofal)	Wedi'i gwblhau 8 wythnos - i'w gwblhau erbyn 26/01/2025
3.	Fodd bynnag, o'r pum cofnod a wiriwyd, nodwyd un enghraifft lle nad oedd asesiad risg o gwmpo wedi'i gynnal. Roedd modd cael gafael ar nyrs	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff asesiadau risg o gwmpo eu cwblhau ar gyfer pob claf wrth iddo gael ei dderbyn.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23	Bydd asesiad risg o gwmpo diwygiedig yn cael ei greu a'i ychwanegu at y broses dderbyn ar gyfer pob plentyn. Wedyn, bydd yr asesiad risg yn cael	Sian Middleton/Tamsin Rees.	8 wythnos - i'w gwblhau erbyn 26/01/2025

	hyfywedd meinwe os oedd angen.		Rheoli Cofnodion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	ei ychwanegu at adran asesu risg y gronfa ddata gofal.		
4.	<p>Gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud i'r gwaith cadw cofnodion fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd siart troi Nid oedd yr adnodd graddio briwiau pwyso yn cael ei ddefnyddio yn y nodiadau gofal. 	<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod siart troi ar gael i'r staff gyfeirio ati</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhaid defnyddio'r adnoddau graddio briwiau pwyso o fewn y nodiadau gofal 	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23</p> <p>Rheoli Cofnodion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p>	<p>Mae'r siart troi bellach ar waith ac yn cael ei defnyddio ar gyfer pob plentyn risg ganolig/uchel sy'n preswyllo.</p> <p>Adnodd asesu'r risg o friwiau pwyso, polisi, graddio a chamau i'w cymryd yn dibynnu ar y risg sydd bellach ar waith, mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio hyn yn ystod ein diwrnod datblygiad</p>	<p>Sian Middleton</p> <p>Sian Middleton (Cyfarwyddwr Nyrso a Gwasanaethau Clinigol)</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<ul style="list-style-type: none"> Fel rheol, byddai'r aelod o'r staff sy'n gwneud nodiadau yn y cofnod gofal yn rhoi ei enw ond byddai angen iddo hefyd gynnwys ei radd 	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i'r staff gynnwys eu gradd yn ogystal â'u henw 		<p>proffesiynol diweddar (18/11/2024)</p> <p>Mae'r holl staff bellach yn cynnwys eu gradd/swydd yn yr holl ddogfennaeth cronfa ddata gofal. Bydd y Swyddog Cronfa Ddata Gofal yn ychwanegu'r holl rolau staff at y Gronfa Ddata Gofal nesaf at eu henwau yn ystod y 4 wythnos nesaf i'w harbed rhag ychwanegu hyn â llaw.</p>	<p>Tracy Sullivan (Swyddog y Gronfa Ddata Gofal)</p>	<p>4 wythnos - 25/12/2024</p>
<ul style="list-style-type: none"> Dylid gwneud cofnod a rhoi sgôr i unrhyw un gydag unrhyw boen. 	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid defnyddio'r sgôr poen yn gyson a phryd bynnag y bydd unrhyw blentyn yn mynegi poeni a'r angen i gael meddyginiaethau lleddfu poen. 		<p>Cwblhaodd CNS sesiwn hyfforddiant ar reoli poen a sgorio poen (18/11/2024). Mae siart rheoli symptomau ar waith. Mae archwiliad rheoli symptomau ar waith, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a</p>	<p>Elise Alderman (CNS)</p>	<p>8 Wythnos</p>

				bydd unrhyw welliannau pellach sy'n ofynnol yn cael eu gwneud yn unol â chanlyniadau'r archwiliad.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sian Middleton

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrso a Gwasanaethau Clinigol (Rheolwr Cofrestredig)

Dyddiad: 28/11/2024